**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 16.7.25</u>**

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

(Canslwyd ymweliad Bryn Hall, Biosffêr Dyfi i drafod prosiect gwenoliaid duon 'Sgrean a Sgrechian'.)

**19:837: Presennol:** Iwan Pughe Jones (Cadeirydd), Aled Griffiths, Huw Williams, Rhodri Wigley, Gwen Lloyd, Paul Hughes, Bedwyr Fychan, Deryck Lewis, Paul Hughes, Elwyn Vaughan (Cyngor Sir) Sandra Evans (Clerc)

**19:838: Ymddiheuriadau**: Dafydd Evans, William Owen, Glyn Jones, Gwenfair Rhys-Davies Gareth Owen

**19:839: Materion Personol:** Mynegwyd cydymdeimlad dwys â Bedwyr Fychan a'r teulu oll. Gwelir eisiau Ann yn y gymuned ac am ei chyfraniad heb ei ail i Gymru gyfan.

**19:840: Datganiadau o ddiddordeb**:

**19:841: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Mehefin 2025**. Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Paul Hughes ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.

**19:842: Materion yn codi o'r cofnodion.**

**19:843: Cynllunio** -Dim

**19:844: Materion ariannol ac eitemau i'w talu ·**

- Cyflog y Clerc Mis Mai (Mis 2) £282.80 a Mis Mehefin (Mis 3) £297.00
- Diweddariad gan Swyddfa'r Awdit am infois ARINV/012976 Ffioedd Archwilio 2022/23- £879
- HMRC £603.28 (6.4.25- 5.7.25) £603.28
- Yswiriant Hiscox Insurance Company Limited £1,315.04
- Gloversure Inv 30044 £48.00 Annual SSL
- WR Partners Mawrth - Mai 2025 Cyflogres £126.00

Cytunwyd y dylid talu'r uchod yn unfrydol.

**19:845: Cemaes – (i) Parcio** Gan fod pryderon yn parhau, cysylltir â NMWTRA ac Awi Williams

**(ii) Cyfyngder cyflymder –** Cafwyd diweddariad gan Chris Lloyd Cyngor Sir Powys yn cadarnhau'r bwriad i osod cyfyngder cyflymder 20 mya ar y ffordd heibio'r maes chwarae yng Nghemaes ac maent yn aros ar hyn o bryd am gymeradwyaeth uwch swyddogion ac aelod Cabinet ar gyfer Powys Gwyrddach. Wedyn bydd modd hysbysu am y gorchymyn traffig a'r ymgynghoriad â'r cyhoedd 28 diwrnod o hyd. Cysylltir â Chris Lloyd, Cyngor Sir Powys i ddiolch am y diweddariad a phwysleisio pwysigrwydd y mater, yn enwedig gan fydd mwy o blant yn defnyddio'r parc yn ystod yr haf.

**Cyfyngder cyflymdra 20mya Cemaes** - Cysylltir hefyd â grwp gweithredu Cemaes a Ken Skates i fynegi pryderon. Mae ceir yn parcio wrth ochr y ffrodd yn gwaethygu'r broblem gan nad oes le i

basio. Cysylltir ag Awi Williams i holi am unrhyw ddatblygiadau am y broblem bod ceir yn parcio yng Nghemaes ar hyd yr A470.

**Cerbydau'n parcio ar y pafin yng Nglantwymyn**. Mae'r mater wedi cael ei adrodd i Gyngor Sir Powys a NMWTRA. Cyngor y ddau gorff yw mai mater i'r heddlu yw hwn. Mae'r heddlu yn ymwybodol o'r broblem ac yn edrych i'r mater. Awgrym gan yr heddlu gosod llinellau melyn yn i atal parcio. Serch hynny, mae pryderon yn parhau gan fod cerddwyr, gan gynnwys mamau â phramiau yn gorfod cerdded ar y briffordd. Anfonir lluniau at Elwyn Vaughan a fydd yn cysylltu â'r heddlu ar ran y Cyngor.

**19:846: Diffibriliwr Tal-y-wern ac Abercegir** Cysylltir â Chyngor Cadfarch i gael manylion llawn.

**19:847:1 Adroddiadau'r Cynghorwyr – Elwyn Vaughan**

- Mae gwelliannau i ffordd y fet ar y gweill. Bydd Network Rail yn ceisio prisiau gan gontractwyr i'w cyflwyno i Gyngor Sir Powys.
- Mae Ysgol Hyddgen hefyd yn hel prisiau ar gyfer y gwaith arfaethedig.
- Mae cais Ysgol Feithrin Glantwymyn yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan obeithio cael cymeradwyaeth yn yr Hydref.
- Ambiwlans Awyr – mae'r broses gyfreithiol yn parhau
- Uned strôc Ysbyty Bronglais – mae'r ymgynghoriad ar-lein ar agor tan ddiwedd Awst. Bydd y Cyngor yn ymateb i hwn.

19:847:2: **Aled Griffiths – ffermydd lleol**

Mynegwyd pryderon eto o ran dyfodol ffermydd Cyngor Sir Powys yn yr ardal. Cysylltir â Jake Berriman yn y Cyngor Sir i ofyn eto am bolisi a chynlluniau ar gyfer ffermydd megis Pen y Bryn ac eraill yn ardal Glantwymyn gan fynegi pa mor bwysig yw'r ffermydd hyn a'r teuluoedd y maent yn eu cynnal i'r gymuned.

**19:848: Ffyrdd a Phontydd**

- Ffordd rhwng Canolfan y Dechnoleg Amgen a Glandulas – coed yn hongian dros y ffordd – angen ei adrodd unwaith eto.
- Manhole ger mynedfa CAT – dal wedi'i flocio. Cysylltir ag Aled Jones
- Tyllau yn y ffordd – Rhiw Tŷ Nant Darowen
- Pontrhydygwial – wrth y troad am Rydygwial mae ysbwriel. Cysylltir ag Andy Thomson.
- Ffridd gate – llwyni wedi tyfu ochr Llanwrin i'r bont. Cysylltir â Phowys a gofyn am eu torri.

**19:849: Unrhyw fater arall**

- Mae angen adnewyddu arwydd llwybr cyhoeddus Cwmlline. Cysylltir ag Awi Williams.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.06.

<u>Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 16.7.25</u>

- Y Blewyn Glas – Cais am bres – Cysylltir i ofyn am fanylion pellach yn ymwneud â'r cais.

- Cylch Meithrin Glantwymyn – Cais am bres cynnal a chadw'r lleoliad – Tybiwyd mai efo Pwyllgor Neuadd Glantwymyn y dylid cysylltu yn y lle cyntaf
- Mynwent Cwmlline Mr Stephen Tudor. - Penderfynwyd cyfrannu £300.00 at gostau torri gwair mynwent Cwmlline.
- Daeth y cyfarfod i ben am 21.20